




Canllaw Defnyddiwr MedicinesComplete



[MedicinesComplete.com](https://www.MedicinesComplete.com)





Cynnwys

03 Cyflwyniad

Sut i gyrchu MedicinesComplete

- 04 [Trwy gyfeiriad IP](#)
- 05 [Trwy enw defnyddiwr a chyfrinair](#)
- 06 [Trwy Shibboleth/OpenAthens](#)
- 06 [Trwy ddolen atgyfeirio o wefan ddiogel](#)
- 07 [Allgofnodi a mewngofnodi fel defnyddiwr arall](#)

Sut i lywio MedicinesComplete

- 08 [Defnyddio'r hafan](#)
- 09 [Defnyddio'r bar chwilio](#)
- 10 [Defnyddio'r uwch chwilio](#)
- 12 [Defnyddio'r pennawd](#)
- 12 [Defnyddio'r dudalen gynnwys](#)
- 13 [Defnyddio'r cerdyn dosau](#)

Sut i ddefnyddio cyhoeddiadau MedicinesComplete

- 14 [Cyflwyniad i gyhoeddiadau](#)
- 15 [British National Formulary \(BNF\) a BNF for Children \(BNFC\)](#)
- 16 [Stockley's Drug Interactions](#)
- 18 [Stockley's Interactions Checker](#)
- 20 [Martindale's ADR Checker](#)
- 21 [Martindale: The Complete Drug Reference](#)
- 22 [Palliative Care Formulary](#)
- 23 [Critical Illness](#)

Sut i gysylltu â ni

- 24 [Sut i adael adborth](#)
- 24 [Cysylltu â ni](#)




Cyflwyniad

Mae **MedicinesComplete** yn ei gwneud hi'n hawdd i weithwyr iechyd proffesiynol gyrchu canllawiau ar sail tystiolaeth a gwybodaeth sicr ar feddyginiaethau i gefnogi penderfyniadau hyderus ar y pwynt angen.

Esbonia'r canllaw defnyddiwr hwn sut i gyrchu a llywio **MedicinesComplete**, ynghyd â chynnig canllawiau ar sut i ddefnyddio cyhoeddiadau penodol.

Ar gyfer cwestiynau a chymorth penodol, anogwn ni chi i ddefnyddio'r manylion cyswllt yng nghefn y canllaw.






Sut i gyrchu MedicinesComplete

Mae tair ffordd o fewngofnodi i MedicinesComplete – trwy gyfeiriad IP, gydag enw defnyddiwr a chyfrinair, neu drwy Shibboleth/OpenAthens. Bydd sut y byddwch chi'n cyrchu MedicinesComplete yn cael ei benderfynu gan yr unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am danysgrifiad eich sefydliad i MedicinesComplete.

Trwy gyfeiriad IP

I gyrchu'r llwyfan trwy gyfeiriad IP, ewch i www.medicinescomplete.com. Ar ôl mewngofnodi'n llwyddiannus, byddwch chi'n cael eich tywys i hafan MedicinesComplete.



1. Nodwch www.medicinescomplete.com ym mar cyfeiriad eich porwr.
2. Os yw'ch cyfeiriad IP wedi'i awdurdodi, cewch gyrchu hafan MedicinesComplete.





Trwy enw defnyddiwr a chyfrinair

I gyrchu MedicinesComplete trwy enw defnyddiwr a chyfrinair, rhaid i chi osod eich cyfrinair y tro cyntaf y byddwch chi'n mewngofnodi. I wneud hyn, ewch i www.medicinescomplete.com a dewiswch yr opsiwn 'Reset password?' yn y ffenestr fewngofnodi.

Unwaith y byddwch chi wedi cwblhau'r broses ail-osod cyfrinair, mewngofnodwch i'ch cyfrif i gael mynd i'r hafan MedicinesComplete.

1. Nodwch www.medicinescomplete.com ym mar cyfeiriad eich porwr a dewis 'Login'.
2. Dewiswch 'Reset password?' a nodwch eich cyfeiriad e-bost.
3. Adferwch y cod ail-osod cyfrinair a anfonwyd i'ch mewnlwch e-bost.
4. Nodwch y cod ar y sgrin mewngofnodi a chadarnhau'ch cyfrinair newydd.
5. Cliciwch ar y botwm 'Login'.
6. Yn y dyfodol byddwch chi angen rhoi'ch cyfeiriad e-bost neu enw defnyddiwr a chyfrinair i fewngofnodi trwy'r hafan MedicinesComplete, oni bai eich bod chi'n cadw'r manylion hyn yn eich porwr.

The image shows two screenshots of the MedicinesComplete website. The first screenshot is the login page, which has a purple header with the Medicines Complete logo. Below the logo are two input fields: 'Email or username' and 'Password'. A purple button labeled 'Log in' is below the password field. A link labeled 'Reset password?' is highlighted with a pink box. At the bottom, there are two links: 'Redeem a voucher' and 'Login via Shibboleth/Open Athens'. The second screenshot is the password reset confirmation page, also with the purple header. It has a purple bar with a back arrow and the text '< Back'. Below this, it says 'A code has been sent to the email address provided in the previous screen.' There are three input fields: 'Reset password code', 'New password', and 'Confirm new password'. Each of the last two fields has an information icon (i) to its right. A purple button labeled 'Submit' is at the bottom.





Trwy Shibboleth/OpenAthens

Mewngofnodwch drwy ddewis 'Login via Shibboleth/OpenAthens'. Unwaith y byddwch chi wedi mewngofnodi'n llwyddiannus, byddwch chi'n cael eich tywys i dudalen hafan MedicinesComplete.

1. Nodwch www.medicinescomplete.com ym mar cyfeiriad eich porwr a dewis 'Login'.
2. Cliciwch ar yr opsiwn 'Login via Shibboleth/OpenAthens'.
3. Yn y ffenestr fydd yn agor, dewiswch eich sefydliad.
4. Byddwch chi'n cael eich ail-gyfeirio at y dudalen mewngofnodi ar gyfer eich sefydliad. Nodwch eich manylion i sicrhau mynediad i'r MedicinesComplete.

Trwy ddolen atgyfeiriad o wefan ddiogel

Gellir defnyddio'r opsiwn hwn i ddarparu mynediad i MedicinesComplete yn uniongyrchol o'ch system fewnol eich hun. Dylai'r cyfarwyddiadau cyffredinol weithio i'r rhan fwyaf, ond mae'n dibynnu ar sut y mae'r cod wedi'i wreiddio ar eich safle. Dilynwch y camau hyn.

1. Penderfynwch ble ar eich system fewnol yr ydych chi eisiau cynnwys dolen i MedicinesComplete. Sicrhewch fod hyn ar dudalen ddiogel nad yw'r cyhoedd yn gallu'i chyrchu (y tu ôl i'ch rhwydwaith neu fewngofnodi ffederal).
2. Cymerwch gopi o URL y dudalen (a elwir hefyd yn URL y cyfeiriwr) a'i anfon at eich Rheolwr Cyfrif a fydd angen ychwanegu hyn at eich dulliau mynediad.
3. Ar ôl ei ychwanegu, ewch yn ôl i'ch system fewnol ac ychwanegu dolen/botwm yn arwain at MedicinesComplete yn y fformat a ganlyn:


E.e. os mai URL y cyfeiriwr yw <https://mc.referrer.com>, yna'r URL y byddwch chi'n ei nodi yn eich system fyddai: https://www.medicinescomplete.com/loginexplore?referrer_url=https://mc.referrer.com





Allgofnodi a mewngofnodi fel defnyddiwr gwahanol

Mae'n bwysig eich bod chi bob amser yn allgofnodi unwaith y mae'ch sesiwn ar MedicinesComplete wedi dod i ben. Mae angen i chi hefyd allgofnodi os dymunwch gyrchu MedicinesComplete gyda chyfrif defnyddiwr gwahanol. Mae hyn yn bwysig os yw'ch tanystrigiad sefydliad wedi'i seilio ar gyd-ddigwyddiad. Bydd allgofnodi yn sicrhau bod cydweithiwr yn gallu mewngofnodi a chyrchu MedicinesComplete.



1. I ddod â'ch sesiwn i ben, cliciwch ar yr eicon 'My account' a dewis 'Sign out' ar y rhestr.
2. I fewngofnodi trwy gyfrif gwahanol, dewiswch 'Login as a different user'. Bydd hyn yn agor y sgrin mewngofnodi lle gallwch chi gael mynediad trwy enw defnyddiwr/cyfrinair neu Shibboleth/OpenAthens.





Sut i lywio MedicinesComplete

Defnyddio'r hafan

Ar ôl i chi fewngofnodi i MedicinesComplete, mae'r dudalen hafan yn cael ei harddangos, sy'n cynnwys y bar chwilio a rhestr o gyhoeddiadau yr ydych chi wedi tanysgrifio iddynt.

Bydd cyhoeddiadau nad ydych chi wedi tanysgrifio iddynt hefyd i'w gweld ond â chlo arnynt i ddangos dim mynediad.

Browse our Publications

Subscribed

- Agilio: Diagnosis and Treatment Guidance
- AHFS Drug Information
- ASHP Injectable Drug Information
- BNF
- BNFC
- Clarke's Analysis of Drugs and Poisons

Cyngor cyflym

Rhowch nod tudalen ar dudalen MedicinesComplete yn eich porwr i gael mynediad cyflym.

1. Chwiliwch ar draws yr holl gyhoeddiadau neu dewiswch un o'r rhestr gyhoeddiadau i ochr dde'r bar chwilio (llun ar dudalen 9).
2. Cliciwch ar y saethau i symud i fyny ac i lawr y rhestr o gyhoeddiadau.
3. Sgroliwch i lawr yr hafan i'r adran 'Browse our publications' i gyrchu dolenni cyflym i'r hafan ar gyfer pob un o'ch cyhoeddiadau rydych chi wedi tanysgrifio iddynt.
4. Sgroliwch i lawr i waelod y dudalen hafan i gael y diweddaraf/newyddion cynnyrch, ynghyd â chyrchu'r canllawiau defnyddiwr.





Defnyddio'r bar chwilio

Gallwch chi ddewis chwilio ar draws yr holl gyhoeddiadau neu mewn cyhoeddiadau sydd wedi'u tansysgrifio yn unigol.

1. Mae'r bar chwilio wedi'i leoli ar y dudalen hafan ynghyd ag ym mhennawd pob tudalen ar y MedicinesComplete.
2. Mae termau chwilio perthnasol yn awto-lenwi pan fyddwch chi'n teipio'r tair llythyren gyntaf yn y bar chwilio.
3. Chwiliwch am ganlyniadau ar draws yr holl gyhoeddiadau neu dewiswch gyhoeddiadau unigol.
4. Mae pob canlyniad chwilio yn rhoi manylion y cyhoeddiad, teitl tudalen, a math o gynnwys.
5. Wrth ddewis cyhoeddiadau, defnyddiwch y panel ar yr ochr chwith i freinio ymhellach eich chwilio trwy hidlo yn ôl cyhoeddiad a math o gynnwys (cyffur, meddyginiaeth, rhyngweithiad, crynodeb o driniaeth, ayyb).

Bydd Diffiniad Geiriadur Meddygol Stedman yn ymddangos ar dop y dudalen canlyniadau chwilio pan fydd yn berthnasol. Cliciwch ar y faner i weld canllawiau ar ynganu a chyfystyron.



Defnyddio chwilio manwl

Gwirydd sillafu ar gyfer canlyniadau chwilio

Wrth ddefnyddio'r bar chwilio byddwch chi'n sylwi ar wirydd sillafu wedi'i awtomeiddio ar gyfer canlyniadau chwilio.

Chwilio semanteg

Cefnoga MedicinesComplete chwilio semanteg yn ôl term cysyniad SNOMED CT ac enwau rhan therapiwtig rhithiol dm+d.

1. Chwilio am 'Coumarin anticoagulant'.
2. Bydd canlyniadau gyda theitlau gan gynnwys 'About anticoagulants', 'Coumarin derivatives', a 'Coumarin' yn cael eu rhoi.

The screenshot shows the MedicinesComplete search interface. At the top, the search bar contains 'Coumarin anticoagulant'. Below the search bar, the results are displayed for 'Coumarin anticoagulant'. The results are sorted with the best match first. The search results are categorized into 'About Anticoagulants', 'Coumarin Derivatives', and 'Coumarin'. The 'About Anticoagulants' category includes 'Introduction' and 'Stockley's Drug Interactions'. The 'Coumarin Derivatives' category includes 'Drug' and 'Drugs in Pregnancy and Lactation'. The 'Coumarin' category includes 'Drug' and 'Martindale: The Complete Drug Reference'. A 'Filter Results' sidebar is visible on the left, showing 'All Publications' (1762 Results), 'Agilia: Diagnosis and Treatment Guidance' (40 Results), 'AHFS Drug Information' (52 Results), and 'ASHP Injectable Drug Information' (0 Results). A 'Feedback' button is located on the right side of the results area.





Chwilio yn ôl cyfystyr

Bydd cyfystyron hefyd yn cael eu canfod wrth chwilio trwy MedicinesComplete.

1. Chwilio am 'Hypericum'.
2. Gweler canlyniadau ar gyfer y teitl 'St John's Wort'.

Chwilio yn ôl fformiwlâu cemegol

Ffordd arall o chwilio yw yn ôl fformiwlâu cemegol. Dengys canlyniadau chwilio bod 'KCl' yn gysylltiedig â 'Potassium chloride'.

Chwilio penagored

Mae MedicinesComplete yn cynnwys chwilio penagored (wildcard search). Er enghraifft, bydd nodi 'Pregnan*' gyda seren ar y diwedd yn rhoi canlyniadau ar gyfer 'Pregnant', 'Pregnancy', a 'Pregnane'.


The screenshot shows the MedicinesComplete search interface. At the top left is the Medicines Complete logo. A search bar contains the text 'Pregnan*' and is highlighted with a pink border. To the right of the search bar are several icons: a magnifying glass, a person, and a circular arrow. Below the search bar, the text 'Search results for *Pregnan**' is displayed. Underneath this, there is a purple button labeled 'Stedman's Medical Dictionary Definition'. On the left side, there is a 'Filter Results' section with four options: 'All Publications' (64 Results), 'Agilia: Diagnosis and Treatment Guidance' (7 Results), 'AHFS Drug Information' (5 Results), and 'ASHP Injectable Drug Information' (0 Results). The main content area shows 'Results 1 - 20 of 64, sorted with best match first.' Below this, there are three search results: 'Nafcillin Sodium' (Drug, Pediatric Injectable Drugs), 'Rifaximin' (Antibiotic, Kucers' the Use of Antibiotics), and 'Abbreviations' (Kucers' the Use of Antibiotics). A blue 'Feedback' button is located on the right side of the results area.





Defnyddio'r pennawd

Defnyddiwch y pennawd i lywio MedicinesComplete yn gyflym ac yn effeithlon gan ddefnyddio ystod o nodweddion llywio'n sythweledol.



1. Cyrchwch y bar chwilio o bennawd unrhyw dudalen.
2. Chwiliwch ar draws yr holl gyhoeddiadau neu o fewn cyhoeddiad penodol trwy glicio ar yr eicon cyhoeddiad a dewis eich hoff un o'r gwymplen. Didolir canlyniadau fel bod y tudalennau sy'n cyd-fynd orau â'ch chwiliad yn cael eu harddangos yn gyntaf.
3. Gellir cyrchu'r offer pwynt gofal fel Stockley's Interactions Checker a'r Martindale's ADR Checker yn uniongyrchol trwy'r eiconau ar ochr dde'r bar chwilio.
4. Gweler opsiynau cyfrif trwy ddewis yr eicon cyfrif. Daw hyn â dewislen yn arddangos 'My account', ynghyd â'r opsiynau 'Sign out' a 'Log in as a different user'.
5. Llywiwch yn ôl i'r dudalen hafan o unrhyw dudalen trwy glicio ar y logo MedicinesComplete ar gornel chwith uchaf y sgrin.

Defnyddio tudalen gynnwys

Defnyddiwch y tudalennau cynnwys i hidlo a llywio cynnwys ar draws yr holl gyhoeddiadau.

1. Yn dilyn eich chwilio, cliciwch ar ganlyniad chwilio i weld y dudalen gynnwys bwrsasol.
2. Defnyddiwch y togll 'Highlight search' i adnabod holl ymddangosiadau'r term chwilio o fewn y dudalen gynnwys.
3. Ar dudalen gynnwys y cyhoeddiadau dethol, mae'r panel ar yr ochr chwith yn caniatáu i chi lywio'n gyflym i isadrannau allweddol y cynnwys megis dosau a sgil-efeithiau, a chynnwys cysylltiedig ar draws pob cyhoeddiad.
4. Mae'r dyddiad ar dop y dudalen islaw enw'r cyhoeddiad yn nodi pa bryd y cafodd unrhyw gynnwys o'r cyhoeddiad ei ddiweddarau diwethaf.
5. Cliciwch ar yr eicon cyhoeddiad i bori'r cyhoeddiad.





Defnyddio'r cerdyn dosau

Yn y canlyniadau chwilio, gweler gwybodaeth bwysig am ddosau gan ddefnyddio'r cerdyn dosau, os yw ar gael.

1. Gellir cyrchu gwybodaeth ar ddosau sydd ar gael yn y British National Formulary (BNF), BNF for Children (BNFC), neu Martindale: The Complete Drug Reference yn gyflym gan ddefnyddio'r cerdyn dosau islaw'r bar chwilio.
2. Er enghraifft, bydd chwilio am 'Adalimumab' yn arddangos cerdyn dosau ar dop y dudalen ganlyniadau.
3. Cliciwch ar y botwm 'Expand' i weld y wybodaeth am ddosau.
4. Gellir toglo yn rhwydd rhwng y wybodaeth ddosau yn BNF, BNFC, neu Martindale: The Complete Drug Reference.
5. Mae unrhyw gyhoeddiadau nad ydych chi wedi tanysgrifio iddynt yn dangos eicon clo.
6. Cliciwch ar 'Read more' ar dop y garden dosau i lywio pob un o'r cyhoeddiadau penodol, er enghraifft, BNF.

Mae tudalen hafan MedicinesComplete yn cynnwys ystod o gyfrifiannellau clinigol i gefnogi'ch arfer, gan gynnwys cyfrifiannellau mesur sylfaenol a chyfrifiannellau ar gyfer paramedrau biocemegol megis cliriad creatinine.

	Albumin:Creatinine Ratio		Creatinine Clearance
	Body Mass Index		Imperial-Metric Calculations
	Body Surface Area		Pregnancy Due Date
	CKD-EPI		





Sut i ddefnyddio cyhoeddiadau MedicinesComplete

Cyflwyniad i gyhoeddiadau

Mae gan bob cyhoeddiad dudalen hafan sy'n caniatáu i chi borïr gwahanol fathau o gynnwys. Mae llawer o gyhoeddiadau yn trefnu cynnwys gyda monograffau manwl ar y cyffur, y llenwydd, neu'r llysiuyn.

Mae cyfoeth o wybodaeth ychwanegol hefyd sy'n benodol i bob cyhoeddiad, megis crynodebau triniaeth a chanllawiau ar y gwrthrych. Gellir cyrchu'r dudalen gyhoeddiadau o'r dudalen hafan MedicinesComplete neu ei chyrchu trwy eiconau llwybr byr yng nghornel dde uchaf unrhyw un o'r dudalen canlyniadau chwilio.

- | | |
|---|--|
|  BNF British National Formulary |  Martindale: The Complete Drug Reference |
|  BNFC BNF for Children |  Martindale's ADR Checker |
|  Critical Illness |  Stockley's Drug Interactions |
|  Palliative Care Formulary |  Stockley's Interactions Checker |





BNF

BNFC

British National Formulary (BNF) a BNF for Children (BNFC)

Mae'r llywio ar draws **BNF** a **BNFC** yr un peth. Mae'r enghraifft hon yn canolbwyntio ar chwilio am wybodaeth am 'Abacavir' yn **BNFC**. Fel y crybwyllir yn 'How to navigate MedicinesComplete', mae sawl ffordd o chwilio am wybodaeth am gyffuriau. Yn yr enghraifft hon, defnyddir y dull 'Using the homepage':

Cyngor cyflym

Er mwyn dychwelyd i'r dudalen hafan MedicinesComplete unrhyw bryd, cliciwch ar y logo MedicinesComplete yn y gornel chwith uchaf.

1. Sgroliwch i lawr y dudalen hafan hyd at 'Browse our publications' a chlicio ar '**BNFC**'.
2. Cliciwch ar 'Drugs' i weld A-Z o gyffuriau. Gellir hidlo'r rhain yn ôl enw cyffuriau neu ddsbarth cyffuriau.
3. Cliciwch ar 'Abacavir' i gael eich tywys i'r monograff cyffuriau a defnyddio'r isadrannau yn y panel ar yr ochr chwith i lywio i'r wybodaeth ofynnol.
4. Er enghraifft, cliciwch ar 'Allergy and cross-sensitivity' i weld unrhyw wybodaeth berthnasol.
5. Cliciwch ar 'Related content' yn y panel chwith uchaf i godi cyfeiriadau eraill at 'Abacavir' yn yr holl gyhoeddiadau.
6. I ddychwelyd i'r dudalen **BNFC**, cliciwch ar y botwm 'Back' yn eich porwr.

Graddio tystiolaeth

Nodwch fod argymhellion yn y **BNF** a'r **BNFC** wedi'u graddio ar sail tystiolaeth i adlewyrchu cryfder yr argymhelliad. Mae hyn yn helpu i gefnogi penderfyniadau clinigol. Defnyddiwch y togl 'Evidence grading' ar dop y dudalen i uwchleuo argymhellion gradd tystiolaeth o fewn y dudalen gynnwys. Daliwch eich cyrchwr dros y symbol graddio tystiolaeth 'M' i weld lefel y dystiolaeth. Os hoffech chi wybodaeth bellach am hyn, gallwch glicio ar y symbol 'M' i'w tywys i dudalen newydd â manylion am y system raddio a ddefnyddir yn y cyhoeddiadau **BNF** a **BNFC**.

Medicines Complete

Abacavir

BNF

Evidence grading

Subsections Related Content

Indications and dose

Cautions

Interactions

Side-effects

Allergy and cross-sensitivity

Caution—increased risk of hypersensitivity reaction in presence of HLA-B*5701 allele

M Manufacturer information

Pregnancy

For all NUCLEOSIDE REVERSE TRANSCRIPTASE INHIBITORS:



Dychwelyd i'r Tabl Cynnwys



Stockley's Drug Interactions

Os byddwch chi'n teipio mwy nac un cyffur yn y bar chwilio, bydd hyn yn chwilio am ryngweithiadau cyffuriau yn awtomatig. Gallwch chwilio yn ôl un cyffur neu yn ôl grŵp cyffuriau yn ôl enw. Yn yr enghraifft hon, byddwn ni'n canolbwyntio ar y cyffuriau 'Apixaban' a 'Verapamil':

1. Nodwch 'Apixaban' a 'Verapamil' yn 'Search all publications'. Bydd hyn yn edrych am ryngweithiadau rhwng y ddau gyffur.
2. Bydd eich canlyniadau chwilio yn cael eu rhestru. Dewiswch y gwymplen cyhoeddiadau i ochr dde eich term chwilio a dewiswch **Stockley's Drug Interactions**.
3. Sylwch fod dau opsiwn i ddewis ohonynt yn y canlyniadau: mae'r canlyniadau 'Specific interactions' yn cynnwys yr union derm a chwiliwyd ac mae'r canlyniadau 'General interactions' yn cynnwys canlyniadau cysylltiedig ar gyfer y term y chwiliwyd amdano.
4. I weld y monograff rhyngweithiadau, cliciwch ar 'Activated factor...' o dan 'Specific interactions'. Mae'r monograff rhyngweithiadau yn cynnwys crynodeb ynghyd â gwybodaeth fanwl ar y dystiolaeth glinigol, dull, a phwysigrwydd a rheolaeth, ynghyd â chyfeiriadau (a ddisgrifir isod).
5. Defnyddiwch fotwm 'Back' eich porwr i ddychwelyd i'r dudalen canlyniadau chwilio.

The screenshot shows the Medicines Complete search results for 'Apixaban Verapamil'. The search bar contains the text 'Apixaban Verapamil'. Below the search bar, there are several filter options: 'Stockley's Drug Interactions' (9 Results), 'All Publications' (274 Results), 'Agilix: Diagnosis and Treatment Guidance' (13 Results), and 'AHFS Drug Information' (12 Results). The main results area shows 'Interactions results for "Apixaban", "Verapamil". Results 1 - 2 of 2, sorted with best match first. Not found what you're looking for? Try another search using quotations around your terms, or use the Stockley's Interactions Checker.' Below this, there are two sections: 'Specific interactions' with the result 'Activated factor X inhibitors + Calcium-channel blockers; Diltiazem or Verapamil Interaction' and 'General interactions' with the result 'Activated factor X inhibitors; Apixaban + CYP3A4 and/or P-glycoprotein inhibitors Interaction'. A 'Feedback' button is visible on the right side of the results area.



Monograffau rhyngweithiadau

Cyflwynir y rhain fel a ganlyn:

Crynodeb

Crynodeb o'r rhyngweithiad mewn blwch glas ar dop pob monograff.

Tystiolaeth glinigol

Llenyddiaeth sylfaenol gefnogol a ddefnyddir i ddisgrifio'r dystiolaeth y tu ôl i rhyngweithiad.

Dull

Dulliau rhyngweithio yn cael eu hesbonio ar sail gwybodaeth o'n tîm golygyddol arbenigol.

Pwysigrwydd a rheolaeth

Argymhellion clir, ymarferol ac ar sail tystiolaeth ar sut i reoli rhyngweithiad.

Cyfeiriadau

Mae pob monograff Stockley's Drug Interactions wedi'u cyfeirio'n llawn yma.

Subsections	Related Content
	Clinical evidence
	Mechanism
	Importance and management
	References





Stockley's Interactions Checker

Mae'r offeryn pwynt angen hwn yn caniatáu i chi nodi nifer diderfyn o enwau cyffuriau/grwpiau cyffuriau o fewn y bar chwilio. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer adnabod rhyngweithiadau posibl yn gyflym mewn cleifion ar nifer o wahanol feddyginiaethau. Yn yr enghraifft hon, byddwn yn gwirio ar gyfer rhyngweithiadau posibl rhwng y sylweddau 'Apixaban', 'Verapamil', 'Simvastatin' a 'Grapefruit':

1. Cliciwch ar yr eicon **Stockley's Interactions Checker** ar y dudalen hafan islaw'r bar chwilio.
2. Nodwch fod dau hidlydd chwilio gwahanol: 'Drug interactions' a 'Food, drink and smoking interactions'. Mae'r olaf yn cynnig gwiriadau ar sut y gallai'r tri ffactor allanol allweddol hyn effeithio ar rhyngweithiadau cyffuriau.
3. Gan ddefnyddio'r hidlydd 'Drug interactions', dechreuwch deipio 'Apixaban', 'Verapamil', 'Simvastatin', a 'Grapefruit'. Ar gyfer pob un, dewiswch y gair yn y canlyniadau chwilio i gadarnhau ei gynnwys yn y chwilio. Ar ôl ei gwblhau, cliciwch ar 'Search'.
4. Mae'r rhyngweithiadau wedi'u trefnu a'u rhestru yn ôl symbol.
5. Mae pob bwch yn dangos rhyngweithiad rhwng dau sylwedd gydag esboniad o'r hyn all ddigwydd a pha gamau i'w cymryd. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth weledol gyflym o'r dystiolaeth, y camau, a'r difrifoldeb.
5. Cliciwch ar y ddolen ar waelod pob blwch rhyngweithiad i fynd i **Stockley's Drug Interactions** am fanylion llawn.

The screenshot shows the 'Medicines Complete' interface. At the top, there is a search bar with the text 'Search Stockley's Drug Interacti'. Below the search bar, it displays '6 results for: apixaban - verapamil - simvastatin - grapefruit'. On the left, there is a 'Filter by warnings' section with four options: 'Show all warnings (6 Results)', 'A life-threatening or contraindicated combination (1 Results)', 'Dosage adjustment or close monitoring is needed (1 Results)', and 'No interaction, or no interaction of clinical significance (4 Results)'. The main content area shows a table with columns for 'simvastatin', 'grapefruit', 'Explanation:', and 'Action:'. The 'simvastatin' entry is 'systemic' and the 'grapefruit' entry is 'systemic'. The 'Explanation:' states: 'Large amounts of grapefruit juice (very) markedly increase simvastatin exposure. Smaller amounts and separating administration by 12 hours reduces this effect. A case report describes rhabdomyolysis in a patient taking simvastatin after starting to eat grapefruit.' The 'Action:' is: 'Avoid concurrent use of grapefruit juice (UK and US). Bear the possibility of an interaction in mind when eating grapefruit.' Below the table, it shows 'Severity: Severe', 'Action: Avoid', and 'Evidence: Study'. At the bottom, there is a note: 'For full information, see Stockley's Drug Interactions'.





Canllaw symbololau

X Coch: Osgoi

Marc cwestiwn melyn: Cymerwch gamau; fel arfer i fonitro neu addasu'r dos.

Marc cwestiwn porffor: Gallai rhywbeth ddigwydd; cymerwch ofal.

Tic gwyrdd: Dim rhyngweithiad neu nid yw'r rhyngweithiad yn berthnasol yn glinigol.

Filter by warnings

	Show all warnings 6 Results
	A life-threatening or contraindicated combination 1 Results
	Dosage adjustment or close monitoring is needed 1 Results
	Give guidance about possible adverse effects and/or consider some monitoring 2 Results
	No interaction, or no interaction of clinical significance 4 Results



Mewnwelediad di-oed

Yn wahanol i **Stockley's Drug Interactions** sy'n rhoi gwybodaeth mewn monograff rhyngweithiad sy'n cwmpasu grŵp cyfan o gyffuriau, mae'r holl ganlyniadau yn **Stockley's Interactions Checker** ar gyfer sylweddau unigol (er enghraifft cyffur a chyffur).





Martindale's ADR Checker

Mae **Martindale's ADR Checker** yn cynnig gallu i chwilio yn ôl nifer eang o gyffuriau, chwilio ar draws grŵp cyffuriau, yn ôl adwaith niweidiol i gyffuriau, neu yn ôl system corff yr adwaith (megis system cardiofasgiwlar). Yn yr enghraifft hon, byddwn yn chwilio yn ôl cyffur:

1. Cliciwch ar **Martindale's ADR Checker** ar y dudalen hafan.
2. Teipiwch 'Sertraline' ym mar chwilio **Martindale's ADR Checker** a dewiswch yr enw yn y canlyniadau chwilio i gadarnhau cyn clicio ar 'Search'.
3. Crynhoir canlyniadau yn y tabl yn nhrefn amlder yr adwaith, gan ddangos y cyffur, adwaith niweidiol i gyffuriau, llwybr, a chrynodeb rheoli.
4. Mae adweithiau niweidiol i gyffuriau sy'n niferus ac a allai arwain at niwed i gleifion yn cael eu hadnabod gan symbol coch ac yn cael eu harddangos yn gyntaf waeth pa mor gyffredin ydyn nhw.
5. Am fanylion pellach ar yr adwaith niweidiol i gyffuriau, cliciwch ar y ddolen 'For further information' i weld y wybodaeth fanwl yn y **Martindale: The Complete Drug Reference**.

The screenshot shows the 'Medicines Complete' interface. At the top, there is a search bar with 'Search All Publications' and a search icon. Below the search bar, the page title is 'Martindale's ADR Checker'. A filter dropdown is set to 'Filter'. The main content area is titled 'ADR messages for: Sertraline' and contains a table with the following columns: Drug, ADR, Frequency, Route, and Management Summary.

Drug	ADR	Frequency	Route	Management Summary
Sertraline	Suicidal Behaviour 	Uncommon 	Oral	<p>Seek specialist advice</p> <p>Seek specialist advice - may occur during or early after treatment discontinuation; monitor carefully for suicidal symptoms. Suicide related behaviours (self-injurious behaviour, suicide attempts and thoughts), and hostility (e.g. aggression) can occur; there is an increased risk in those under 25 years.</p> <p>For further information, see Suicidal behaviour.</p>
Sertraline	Suicidal Ideation 	Uncommon 	Oral	<p>Seek specialist advice</p> <p>Seek specialist advice - may occur during or early after treatment discontinuation; monitor carefully for suicidal symptoms. Suicide related behaviours (self-injurious behaviour, suicide attempts and thoughts), and hostility (e.g. aggression) can occur; there is an increased risk in those under 25 years.</p>



Mewnwelediad di-oed

Mae'r termau a ddefnyddir i ddiffinio adweithiau niweidiol i gyffuriau wedi'u safoni gan ddefnyddio terminoleg gyson, sy'n cynnig swyddogaeth chwilio fanwl. Er enghraifft, os ydych chi'n teipio 'Loose stools', bydd y gwirydd yn awto-awgrymu'r term cyfystyr 'Diarrhoea'.





Martindale: The Complete Drug Reference

Mae'r monograffau cyffuriau yn **Martindale: The Complete Drug Reference** yn cynnwys gwybodaeth cyffuriau rhyngwladol manwl yn cwmpasu cyfundrefn enwau, defnyddiau, gweinyddiaeth, rhagofalon, ac effeithiau niweidiol. Mae dolenni hefyd at wybodaeth baratoi yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer dros 200,000 o gynnyrch sydd ar gael o dros 21,000 o gynhyrchwyr.

Mae'r paratodau i gyd wedi'u rhestru o fewn pob monograff cyffuriau unigol a gellir chwilio amdanynt fesul gwlad benodol. Yn yr enghraifft hon, byddwn yn chwilio am wybodaeth ar 'Esketamine':

1. Sgrolwch i lawr i **Martindale: The Complete Drug Reference** yn y rhestr gyhoeddiadau a thepiwch 'Esketamine' yn y bar chwilio.
2. Llywiwch i'r monograff cyffuriau 'Esketamine hydrochloride' trwy glicio ar y canlyniad terfynol.
3. Mae'r blwch 'Drug nomenclature' yn cynnwys cyfystyron, enwau swyddogol, pwysau moleciwlaidd, dynodwyr rhyngwladol megis ATC a CAS, a mwy, ynghyd â chrynodebau o'r cyffuriaduron aml-diriogaeth os yw ar gael.
4. Defnyddiwch banel ar yr ochr chwith i weld isadrannau eraill yn ymdrin â Defnyddiau a gweinyddiaeth, Effeithiau niweidiol a Rhagofalon, Rhyngweithiadau, a Chyffuriaduron.
5. Cliciwch ar 'Pharmacokinetics' i weld dolen i'r monograff 'Ketamine'.
6. Cliciwch ar 'Preparations' yn y panel i weld enwau brand y cynnyrch a ddefnyddir mewn hyd at bron i 50 gwlad.
7. Dewiswch wlad o'ch dewis i weld y cynnyrch sydd ar gael yn y wlad honno. Mae'r gronfa ddata paratodau hefyd yn cynnwys cynnyrch sydd wedi'u terfynu neu nad ydynt yn cael eu marchnata'n weithredol bellach. Mae'r paratodau hyn yn cael eu hadnabod gan ddefnyddio symbol, os dewiswch UK mae'r symbol yn ymddangos wrth ymyl 'Vesierra'.
6. Mae pob paratoad yn cynnwys rhestr o gynhwysion gweithredol a dolenni at fonograffau cyffuriau perthnasol, ynghyd â'r gwneuthurwr a'r arwyddion trwyddedig i'w defnyddio. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer adnabod cynhwysion â brand rhyngwladol a dethol dewis addas ar gyfer eich claf.

The screenshot shows the 'Pharmacokinetics' section for Esketamine Hydrochloride. It includes a list of references:

1. Geisslinger G, et al. Pharmacokinetics and pharmacodynamics of ketamine enantiomers in surgical patients using a stereoselective analytical method. *Br J Anaesth* 1993; 70: 666-71. [PubMed](#)
2. Weber F, et al. S-ketamine and s-norketamine plasma concentrations after nasal and i.v. administration in anesthetized children. *Pediatr Anesth* 2004; 14: 583-6. [PubMed](#)
3. Sigtermans M, et al. S(+)-ketamine effect on experimental pain and cardiac output: a population pharmacokinetic-pharmacodynamic modeling study in healthy volunteers. *Anesthesiology* 2009; 111: 892-903. [PubMed](#)



Cyngor
cyflym

Mae'r **Martindale: The Complete Drug Reference** hefyd yn cynnwys adolygiadau triniaeth clefyd sy'n cynnig crynodebau ar sail tystiolaeth o ystod o ffynonellau i weithredu fel cyngor rheoli cymharol.



Dychwelyd i'r Tabl Cynnwys



Palliative Care Formulary

Mae **Palliative Care Formulary** yn cynnig gwybodaeth arbenigol heb ei hail ar gyffuriau i weithwyr iechyd proffesiynol wrth ofalu am gleifion sy'n oedolion sy'n wynebu clefydau cynyddol sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae wedi'i drefnu'n bennaf i fonograffau cyffuriau.

1. Sgroliwch lawr i **Palliative Care Formulary** yn y rhestr gyhoeddiadau, teipiwch 'Baclofen' yn y bar chwilio a chlicio ar 'Baclofen' yn y canlyniadau.
2. Defnyddiwch y panel ar yr ochr chwith i weld ystyriaethau allweddol ar gyfer y monograff cyffuriau megis Arwyddion, Dosau a defnydd, Effeithiau annymunol, a mwy.
3. Cliciwch ar yr eicon wrth ymyl y teitl **Palliative Care Formulary**. Bydd hyn yn mynd â chi i dudalen hafan **Palliative Care Formulary** sy'n cynnwys adnoddau defnyddiol eraill gan gynnwys Testunau Cyffredinol, Llwybrau gweinyddiaeth, ac Atodiadau.
4. Cliciwch ar 'Appendices' i weld cymarebau trosi dosau opioid a siartiau cydnawsedd.
5. Pwyswch y botwm yn ôl a chliciwch ar 'General topics' i weld egwyddorion ar gyfer presgripsiynu mewn gofal lliniarol gan gynnwys presgripsiynu ar gyfer amhariad arenol a hepatig.
6. Fel rhan o'ch tanysgrifiad **Palliative Care Formulary**, byddwch chi hefyd yn cael mynediad at Syringe Driver Database PCF trwy'r **Drug Compatibility Checker**.
7. Gallwch gyrchu'r [Drug Compatibility Checker yma](#), neu trwy ddefnyddio'r ddolen islaw'r bar chwilio ar y dudalen hafan MedicinesComplete.

Medicines Complete

Search Palliative Care Formulary

Palliative Care Formulary
Publication last updated on 10-Dec-24

The Palliative Care Formulary provides unrivalled and independent drug information for health professionals when caring for adult patients facing progressive life-limiting diseases and their care givers. This trusted source goes beyond standard drug reference works, empowering health professionals to select the right drugs and treatment regimens at the point of care to help improve quality of life.

Publication Home

Appendices

- Appendix 1: Anaphylaxis
- Appendix 2: Opioid dose conversion ratios
- Appendix 3: Compatibility charts

Feedback



Mewnwelediad di-oed

Mae'r **Drug Compatibility Checker** yn offeryn unigryw, sy'n cyflwyno data wedi'i gyhoeddi o **ASHP Injectable Drug Information** gydag adroddiadau arfer clinigol o Syringe Driver Database PCF.



Dychwelyd i'r Tabl Cynnwys



Critical Illness

Mae cynllun **Critical Illness** yn gryno ac yn hygyrch, gan ei wneud yn haws ei ddefnyddio ar gyfer y rheini sydd angen y wybodaeth ar y pwynt angen. Yn yr enghraifft hon, byddwn yn canolbwyntio ar y cyffur 'Meropenem':

1. Sgroliwch i lawr i'r **Critical Illness** yn y rhestr gyhoeddiadau, teipiwch 'Meropenem' yn y bar chwilio.
2. O fewn y monograff **Critical Illness**, mae'r isadrannau yn y panel ar yr ochr chwith yn cynnwys Arwyddion mewn salwch critigol, Gweinyddiaeth, addasiadau Dosau, Ffarmacoleg, Pharmacokinetics, ac ystyriaethau pwysig ar gyfer y salwch critigol.
3. Mae'r adran addasiadau Dosau yn cynnig gwybodaeth benodol i dywys dosio cleifion mewn gofal dwys, megis y rheini gydag anaf aciwt i'r arennau neu'n derbyn ocsigeniad pilen ychwanegol-gorfforol.
4. Mae'r adran Pharmacokinetics yn cynnig gwybodaeth benodol ar adnabod newidiadau mewn paramedrau sy'n digwydd yn ystod salwch critigol, megis cyfaint y dosbarthiad o'i gymharu â chleifion meddygol cyffredinol.
5. Mae gwybodaeth fanwl bellach i'w chael yn yr adran resymeg estynedig, sy'n cynnig sylwadau clinigol a chyfeiriadau yn ôl i'r brif lenyddiaeth. Mae wedi'i leoli islaw'r Rhyngweithiadau mewn salwch critigol.
6. Cliciwch ar 'Important considerations for the critically ill' yn y panel, sy'n rhoi manylion rhyngweithiadau, sgil-ffeithiau, ac unrhyw ystyriaethau pwysig eraill yn ymwneud â gweinyddu cyffuriau.
7. Rhoddir dolenni i gyhoeddiadau **MedicinesComplete** eraill er gwybodaeth ac i ffynonellau eraill am ymchwil pellach os yw ar gael.



Mewnwelediad di-oed

Mae gwybodaeth yn **Critical Illness** wedi'i gyfeirio'n llawn. Serch hynny, os yw'r argymhellion wedi'u seilio ar arfer critigol a barn consensws ein bwrdd golygyddol arbenigol, tynnir sylw at raddio tystiolaeth yn y cynnwys fel 'Expert opinion'.

Medicines Complete

Meropenem

Critical Illness Evidence grading

Subsections Related Content

- Introduction
- Indications in critical illness
- Administration
- Dose adjustments
- Pharmacology
- Pharmacokinetics

The needs of the individual patient must be considered, for example, a frail elderly patient with a low BMI will have a reduced volume of distribution as well as an age related reduced renal clearance, and therefore require a reduced dose to achieve the same serum concentration as a young healthy male. [E]

Beta-lactams may be delivered by continuous infusions in some institutions; the evidence for this is limited. Where evidence for using a continuous infusion for a specific beta-lactam antibiotic does exist, we provide dosing recommendations for both continuous infusions and short intermittent infusions or intravenous injection. In the absence of such evidence, local practice should be defined by the multidisciplinary team, which should include a microbiologist and clinical pharmacist. [E]

For details on general use of meropenem: [Expert opinion](#) [oral Formulary](#)


Feedback





Sut i adael adborth

Defnyddiwch y botwm ar ochr dde tudalennau MedicinesComplete i gyflwyno adborth.



Sut i gysylltu â ni

Am gefnogaeth ac ymholiadau cyffredinol

A oes gennych gwestiwn neu angen help? Edrychwch ar ein [Cwestiynau Cyffredin](#) neu [cysylltwch](#).

Porwch ein [deunyddiau hyfforddi](#), [canllawiau defnyddwyr](#) a mwy ar [PharmaceuticalPress.com](#)

Am wybodaeth ac i gysylltu â'n tîm
ewch i [PharmaceuticalPress.com](#)



Ymwadiad

Mae MedicinesComplete wedi'i anelu at weithwyr iechyd proffesiynol ac yn cymryd yn ganiataol lefel o hyfforddiant proffesiynol i ddehongli'r wybodaeth ar y safle hwn. Mae gwybodaeth ar ddethol a defnydd clinigol ar feddyginiaethau wedi'i dylunio ar gyfer presgripsiynwyr, fferyllwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ac nid yw'n addas ar gyfer cleifion na'r cyhoedd. Dylid dehongli'r holl wybodaeth yng ngoleuni gwybodaeth broffesiynol ac ategu ati yn ôl yr angen â chyhoeddiadau arbenigol, ac mae'r holl ddefnyddwyr yn gyfrifol am sicrhau defnydd priodol neu hyder ar wybodaeth o'r fath. Er bod RPS yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddiweddarau'r wybodaeth ar MedicinesComplete, nid yw RPS yn gwneud unrhyw sylwadau, gwarantau na sicrwydd, boed hynny'n benodol neu'n ymhlwg, bod y cynnwys yn gywir, yn gyflawn, neu'n gyfredol. Hyd y caniateir gan y gyfraith, ni fydd RPS yn derbyn cyfrifoldeb dros iawndal, ar unrhyw ffurf, sy'n deillio o, neu mewn perthynas â, MedicinesComplete, neu am anallu dros dro i gyrchu'r safle hwn. Am ragor o wybodaeth, gweler ein Telerau ac Amodau Gwefan.

© The Royal Pharmaceutical Society, 2025. Ni chaniateir copio MedicinesComplete heb ganiatâd.